


Chwefror - Mawrth 2019 rhifyn 118



£2


lingo

newydd



un o gyhoeddiadau
GOLWG?

Ble mae'r bardd yn byw?



Y ddau
ffarmwr
bach



Dw i'n hoffi
meddai...
Catrin
Heledd

Helo, bawb!

Blwyddyn Darganfod ydy 2019 yng Nghymru.

Y syniad ydy helpu pobl i ddarganfod lleoedd a phethau newydd yng Nghymru.

Mae SpiritCymru yn brosiect newydd ac mae'n helpu pobl i ddarganfod hen gapeli ac eglwysi. Mae'r prosiect yn creu llwybrau beicio i fynd i'r capeli a'r eglwysi a dych chi'n gallu aros dros nos mewn podiau! Mae mwy am y prosiect yma ar dudalen 10 ac 11.


Mae Lili Jones wedi bod yn darganfod llawer am redeg busnes dros y misoedd diwethaf. Mae ei busnes, Bodoli, yn gwneud anrhegion a gemwaith Cymreig – ond dim ond 14 oed ydy Lili. Darllenwch amdani hi ar dudalen 4.

Mae Gwenno Lloyd Jones, hefyd, wedi dechrau busnes newydd. Mae glwten yn ei gwneud hi'n sâl. Yr ateb, felly, ydy gwneud bwyd heb glwten!

Mae Aneirin Karadog yn byw yn Llydaw. Mae e wedi symud yno gyda'i wraig a'i ddau o blant. Mae e'n siarad Llydaweg. Mae e isie i'w blant ddsygu siarad Llydaweg hefyd. Mae e'n dweud mwy am ei fywyd yn Llydaw ar dudalen 12.

Mae Debora Morgante wedi teithio o'r Eidal i bentre 'Eidalaidd' yng Nghymru! Beth ydy barn Debora am bentre Portmeirion? Ewch i dudalen 18.

Ble bynnag dych chi, ewch i ddarganfod!



Geiriau

darganfod – (to) discover, discovery
lle,-oedd – place,-s
creu – (to) create
llwybr,-au – path,-s
ble bynnag – wherever

Cynnwys

Chwefror – Mawrth 2019

- 3 Eich tudalen chi
- 4 O ddiddordeb – Llwyau caru
- 5 Rhywbeth bach – Mae Lili Jones yn rhedeg busnes yn 14 oed.
- 6 'Dw i'n hoffi...' – Beth ydy hoff bethau Catrin Heledd, y newyddiadurwraig chwaraeon?
- 8 Bwyd – Coginio heb glwten – salwch yn troi'n fusnes i Gwenno Lloyd Jones
- 9 Y sêr gyda Chris Needs
- 10 Blwyddyn Darganfod – Hen eglwysi ... ar feic
- 12 Byw Dramor – Bardd yn Llydaw
- 13 Natur gyda Bethan Wyn Jones – Eithin – y 'blodau aur'
- 14 Dim Wylfa Newydd? Mae cwmni Hitachi wedi gohirio cynllun i godi gorsaf niwclear newydd ar Ynys Môn.
- 16 Ar y bocs – Cefn Gwlad Bach. Mae dau gyflwynydd newydd ar y rhaglen enwog – mae un yn 8 oed a'r llall yn 10.
- 18 Dewis Debora – O'r Eidal i bentre 'Eidalaidd' yng Nghymru!
- 19 Croesair ac idiom Mumph

Geiriau

llwy,-au – spoon,-s
newyddiadurwraig –
journalist (fem.)
salwch – illness
darganfod – (to)
discover, discovery
bardd – poet

Llydaw – Brittany
eithin – gorse
gohirio – (to) postpone
cynllun – scheme
cyflwynydd –
presenter
y llall – the other (one)



Lliwiau newydd!

Lliwiau lingo newydd Mae cod lliw i'ch helpu chi i ddarllen lingo newydd.

- 1 Darllenwch y darnau melyn os dych chi'n dechrau dysgu.
- 2 Darllenwch y darnau gwyrdd os dych chi'n fwy profiadol.
- 3 Darllenwch y cyfan os dych chi'n brofiadol iawn.

■ Dyma liw geiriau'r De. ■ Dyma liw geiriau'r Gogledd. ■ Mae'r lliw yma i bawb.

Cyhoeddiad gan gwmni GOLWG[®]
lingo newydd, d/o Golwg, Blwch Post 4, Llanbedr Pont Steffan,
Ceredigion. SA48 7LX ☎ 01570 423529 ☎ 01570 423538
✉ e-bost: lingo^{newydd}@golwg.com

Cyfranwyr: Bethan Lloyd, Dylan Iorwerth, Chris Needs, Dyfan Williams,
Mumph, Bethan Wyn Jones

Llun clawr: Aneirin Karadog – Y bardd a'i deulu yn Llydaw

EICH TUDALEN CHI



Ffan mawr!

Annwyl lingo newydd,

Dw i'n dod o Gwbrân ond dw i'n byw yn Lloegr nawr. Dw i'n dysgu Cymraeg ers rhai blynyddoedd.

Dw i'n aelod o Glwb Cymraeg Preston a dw i'n siarad neu ddarllen gyda chymydog Cymraeg bob wythnos.

Es i i fy ngêm rygbi gyntaf pan o'n i'n 6 oed. Gwelodd fy nhad a fi dîm Casnewydd yn Rodney Parade. Ro'n i wrth fy modd ar yr adegau yna, yn cefnogi fy nhîm yn falch, bob amser yn gwisgo fy sgarff ddu ac ambr.

Nawr, mae arferiad yn fy nghartref pan mae Cymru yn chwarae rygbi.

Cyn y gemau dw i'n gwrandao ar CDs Max Boyce, mae'r faner Gymreig yn cael ei rhoi dros fy sofffa a dw i'n gwisgo fy nghrys Cymru. Dw i'n diffodd y ffôn ac yn cloi'r drysau! Yn ystod y gêm mae llawer o weiddi.

Mae pice ar y maen ar gael hanner amser.



Er fy mod i wedi symud i ffwrdd o Gymru flynyddoedd yn ôl, dw i'n dal i fod yn ffanatig am rygbi Cymru. Mae fy ffrindiau a fy nghymdogion yn gwybod pa dîm dw i'n cefnogi.

Dw i'n edrych ymlaen at Gwpan y Byd yn 2019.

**Deborah Lovett,
Preston**

Geiriau

cymydog, cymdogion – neighbour, -s
 adeg, -au – time, -s
 balch – proud
 arferiad – custom
 diffodd – (to) switch off
 cloi – (to) lock

pice ar y maen =
 cacennau cri
 – Welsh cakes
 er fy mod i – although
 I ...
 dw i'n dal ... – I'm
 still ...

Gemau rygbi Cymru eleni

Mae gemau rygbi Cymru eleni yn dechrau ym mis Chwefror.

Y gêm gynta ydy'r gêm yn erbyn Ffrainc, nos Wener I Chwefror.

Mae Cymru'n chwarae gartre yn erbyn Iwerddon a Lloegr.

Mae Cymru'n chwarae oddi cartre yn erbyn Ffrainc, yr Alban a'r Eidal – y crysau glas i gyd.

Geiriau

eleni – this year
 oddi cartre – away

Mae Llew Tudur yn mwynhau gwneud llwyau caru – llwyau traddodiadol a llwyau gwahanol iawn...

Llew a'r llwyau

Dych chi'n hoffi llwyau caru?

Dych chi'n hoffi'r symbolau traddodiadol – y patrymau Celtaidd a'r calonnau?

Dych chi wedi gweld llwy garu gyda symbolau **Dr Who** a **Star Trek**?

Mae Llew Tudur yn gwneud llwyau caru traddodiadol a rhai modern, gwahanol hefyd. Dyna'i ddiddordeb mawr.

Mae gwneud llwyau caru "yn fy ngwaed i," meddai Llew. Mae pum cenhedlaeth o'i deulu yn seiri coed.

Mae Llew Tudur yn byw yng Nghaerdydd. Mae e'n gweithio fel gofalwr yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Mae e'n cerfio llwyau caru yn ei amser sbâr. Mae e'n cymryd tua wythnos i wneud un llwy.

Y dechrau

Dechreuodd Llew wneud llwyau caru pan oedd e yn yr ysgol.

Pam?

"Achos mae'n grefft draddodiadol Gymreig ac yn agos at galon y Cymry.

"Wnes i ddechrau gwneud llwyau efo patrymau a symbolau traddodiadol ond, ar ôl tua 10 mlynedd, wnes i ddechrau gwneud rhai efo rhyw fath o *dwist*.

"Ro'n i'n trio rhoi mwy o fy mhersonoliaeth i yn y llwyau ac roedden nhw'n fyw modern."



Geiriau

llwy-au – spoon,-s	saer coed, seiri coed –
traddodiadol –	carpenter,-s, joiner,-s
traditional	gofalwr – caretaker
gwahanol – different	personoliaeth –
gwaed – blood	personality
cenhedlaeth – generation	

Digwyddiadau arbennig

Mae pobl yn gofyn i Llew Tudur wneud llwyau ar gyfer digwyddiadau arbennig. Mae e'n hoffi defnyddio coed piggydd a choed ceirios.

"Dw i'n gofyn i bobl beth ydy'r digwyddiad, beth ydy eu diddordebau ac wedyn dw i'n creu cynllun. Mae'n edrych yn od i bobl eraill efallai ond, os ydy e'n dangos cariad y rhai sy'n comisiynu'r llwy, dim ots! Mae'r symbolau'n unigryw iddyn nhw."

Mae rhai comisiynau'n wahanol iawn!

"Roedd rhywun isie un gyda thema *sci fi*.

Roedden nhw isie symbol **Dr Who**, **Star Trek**, **Batman** a **Star Wars**. Roedd hyn yn eitha anodd ond dw i'n hoffi gwneud rhai fel yna. Mae'n lot mwy o hwyl ac mae'n sialens."

Geiriau

digwyddiad,-au – event,-s
ar gyfer – for
piggydd – lime
ceirios – cherry
cynllun – plan
unigryw – unique

Dyma Llew

Mae Llew Tudur yn byw yng Nghaerdydd ac mae e'n dod o Gaerdydd yn wreiddiol. Mae e wedi byw ym Mangor hefyd.

Mae e'n gweithio yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru. Roedd llawer o'i deulu'n seiri coed.

Mae Llew yn hoffi gwneud llwyau caru yn ei amser sbâr.

Mae e'n hoffi gwneud llwyau gwahanol iawn.

Mae e'n gwneud llwyau i ddathlu priodasau neu ben-blwyddi.

Geiriau

wedi byw – has lived
amgueddfa werin – folk museum
saer coed, seiri coed – carpenter,-s, joiner,-s
gwahanol – different
dathlu – (to) celebrate
priodas,-au – wedding,-s
pen-blwydd,-i – birthday,-s



Llwyau caru

Yn Sain Ffagan, mae un llwy yn dyddio o 1667.

Mae gwneud llwyau caru yn hen draddodiad.

Yn y gorffennol, roedd dyn ifanc yn cerfio llwy garu. Roedd e'n rhoi'r llwy i ferch arbennig i ddangos ei gariad. Roedd rhaid cerfio'r llwy o un darn o bren, gyda chylllell boced fach.

Er hynny, mae rhai o'r llwyau yn gain iawn. Maen nhw'n defnyddio patrymau Celtaidd, calonnau, cadwyni, allwedd ac olwynion.

Geiriau

dyddio – (to) date
er hynny – despite that
cain – beautiful, refined
cadwyn,-i – chain,-s
allwedd,-i = agoriad,-au – key,-s
olwyn,-ion – wheel,-s

Mae Lili Jones yn rhedeg busnes – a dim ond 14 oed ydy hi!

Dysgu gwersi busnes

Dych chi'n cofio bod yn 14 oed? Dych chi'n cofio mynd i'r ysgol? Oeddech chi'n rhedeg busnes hefyd?

Dyna beth mae Lili Jones, o Rydaman, yn wneud.

Mae Lili yn 14 oed ac mae hi'n mynd i Ysgol Dyffryn Aman, Rhydaman. Ym mis Hydref y llynedd, prynodd hi fusnes o'r enw Bodoli, busnes sy'n gwerthu anrhegion Cymreig. Nawr, mae hi'n rhedeg y busnes yn ei hamser sbâr.

Sut mae Lili yn rhedeg busnes ac yn gwneud gwaith ysgol?

"Mae'n eitha' anodd ond mae fy ffrindiau i a'r ysgol yn gefnogol iawn. Dw i'n codi'n gynnar i weithio ar y busnes cyn mynd i'r ysgol, yna'n gwneud gwaith cartref ar ôl ysgol. Wedyn, dw i'n troi yn ôl at waith Bodoli gyda'r nos. Y penwythnos ydy'r adeg mwya prysur."

Mae ei rhieni hi, Geraint a Janette Jones, yn helpu Lili gyda'r busnes os ydy hi isie help.

"Mae gan fy rhieni i eu busnes eu hunain – maen nhw'n rhedeg cwmni datblygu tai – ac maen nhw'n helpu lot.

"Os oes problem neu os oes cwsmeriaid isie gofyn cwestiwn dw i ddim yn gallu ateb maen nhw'n helpu. Maen nhw'n mynd i Swyddfa'r Post gyda'r parseli hefyd achos dw i ddim yn gallu gyrru! Dw i wedi dysgu lot ganddyn nhw."



Busnes Bodoli

Mae Bodoli yn gwerthu anrhegion Cymreig sy wedi'u gwneud â llaw, fel gemwaith a fframiau celf sy wedi'u gwneud o gerrig bychain. Sut dechreuodd hyn?

"Ro'n i wedi prynu anrheg i Mam-gu gan Bodoli tua blwyddyn yn ôl ac ro'n i'n dwlu arni hi. Wedyn, wnes i weld bod Bodoli ar werth a gofynnais i i fy rhieni, 'Beth dych chi'n feddwl?' Roedden nhw'n teimlo bod hyn yn gyfle perffaith."

Beth mae Geraint, tad Lili, yn feddwl?

"Mae Lili yn greadigol. Hi sy'n gwneud popeth – delio gyda'r cwsmeriaid a'r archebion a gwneud y cynnyrch. Ond os oes ganddi hi arholiad neu os ydy hi isie cael trip bach i'r dre gyda'i ffrindiau dyn ni'n gallu helpu. Dyn ni'n falch iawn ohoni hi."

Geiriau

dim ond – *only*
sy'n gwerthu – *that sells*
eu busnes eu hunain – *their own business*
datblygu – *(to) develop*
tŷ, tai – *house,-s*

Geiriau

dwlu ar = *wedi gwirioni ar – (to) love*

Dych chi'n gallu prynu rhywbeth bach gan Bodoli ar y we:
www.bodoli.co.uk

Ble mae hi'n gwerthu?

Mae geiriau Cymraeg ar lawer o'r cynnyrch, fel bangls a lluniau mewn fframiau, a nawr mae hi'n gwerthu mwy o bethau mewn ieithoedd fel Sbaeneg, Ffrangeg, Eidaleg a Phwyleg hefyd.

Mae hi'n gwerthu ei chynnyrch ar y we ond roedd hi'n gwerthu yn y Ffair Aeaf yn Llanellwedd hefyd. Oherwydd hynny, mae hi

wedi cwrdd â'r Prif Weinidog, Theresa May.

"Roedd hynna'n anhygoel. Fe wnes i gwrdd â Theresa May ar ôl ennill gwobr am y stondin orau yn y sioe. Ro'n i wedi cymryd lot o amser i'w addurno."

Beth nesa?

"Dw i isie trio cael mwy o siopau Cymreig i werthu'r cynnyrch. Dw i isie i'r busnes

dyfu ac mae gen i 10,000 o ddilynwyr ar Facebook erbyn hyn."

Geiriau

cynnyrch – *products*
oherwydd – *because (of)*
cwrdd â = *cyfarfod â*
– *(to) meet*
anhygoel – *incredible, awesome*
stondin – *stand*
tyfu – *(to) grow*

Dyma Lili Jones

Mae Lili yn 14 oed.

Mae hi'n mynd i Ysgol Dyffryn Aman, Rhydaman.

Mae hi'n rhedeg busnes Bodoli hefyd. Mae Bodoli yn gwerthu anrhegion – gemwaith a fframiau celf.

Mae rhieni Lili yn helpu os oes angen help.

Geiriau

gemwaith – *jewellery*
celf – *art*
angen – *need*

Mae lingo newydd yn gofyn i bobl beth maen nhw'n hoffi. Y tro yma, mae Catrin Heledd yn ateb ein cwestiynau. Mae hi'n newyddiadurwraig chwaraeon gyda'r BBC. Mae hi'n byw ym Mhentyrch, yng Nghaerdydd ...

Catrin Heledd Dw i'n hoffi...

Catrin, beth ydy ...?

...eich hoff ffilm

Mae'n dibynnu ar sut dw i'n teimlo! Weithiau, dw i'n mwynhau *rom com* lle does dim angen meddwl gormod – rhywbeth fel **P.S. I Love You**.




Weithiau, dw i'n hoffi rhai o ffilmiau Disney sy ar gyfer plant o bob oed – **Up**,

Inside Out neu **Toy Story**. Dw i'n mwynhau mynd i'r sinema ym mis Ionawr hefyd – er mwyn gweld rhai o'r ffilmiau sy'n cael eu henwebu am Oscar.

...eich hoff lyfr

Un Noson Dywyll gan T. Llew Jones. Dyma un o'r llyfrau cynhara dw i'n cofio'i ddarllen. Ro'n i yn yr ysgol a wnes i fwynhau'n fawr.

Dyma ddechrau ar obsesiwn gyda T. Llew Jones – fel llawer o blant ar draws Cymru, mae'n siŵr. Ro'n i isie darllen pob un o'i lyfrau. Erbyn hyn, dw i wrth fy modd yn darllen hunangofiannau – dw i'n hoffi darllen am hanes pobl!



...eich hoff fwyd

Bwyd Eidalaid. Dw i'n mwynhau pasta a pizza. Taswn i'n cael y cyfle, baswn i'n bwyta bwyd fel hyn drwy'r amser. Does dim byd yn well na lasagne ar noson oer i roi ychydig o gysur. O ran pwddin, *sticky toffee pudding* bob tro!



Catrin Heledd yn gweithio

...eich hoff olygfa

Dw i'n dod o Bentyrch, sy rai milliroedd tu allan i Gaerdydd. Mae Mynydd y Garth gerllaw. Ar ddiwrnod braf, dych chi'n gallu gweld y briffddinas yn ei holl ogoniant! Dyna wnaeth ysbrydoli'r ffilm **The Man Who Went Up a Hill and Came Down a Mountain** gyda Hugh Grant, medden nhw. Mae cerdded i'r copa yn ffordd dda o gael ymarfer corff.



Geiriau

newyddiadurwraig – *journalist* (fem.)

hunangofiant, hunangofiannau – *autobiography*,

autobiographies
cysur – *comfort*

o ran – *concerning, with regard to*

yn ei holl ogoniant – *in all its glory*

ysbrydoli – *(to) inspire*



Llun:S4C

Dyma Catrin

Newyddiadurwraig Chwaraeon gyda'r BBC ydy Catrin Heledd.

Mae hi'n dod o Bentyrch, yng Nghaerdydd.

Mae Catrin yn sylwebu ar gemau rygbi a phob math o chwaraeon.

Mae hi'n teithio i lawer o wledydd dros y byd i sylwebu ar chwaraeon.

Mae hi'n hoffi bwyd Eidalaidd, gwyllo ffilmiau a chyfresi teledu a darllen hunangofiannau – mae Catrin yn hoffi darllen am bobl.

Mae Catrin Heledd yn sylwebu ac yn cyflwyno gemau'r Chwe Gwlad ar S4C yn mis Chwefror a mis Mawrth.

Mae S4C yn dangos pob un o gemau tîm dynion Cymru, tair gêm tîm merched Cymru a thair gêm y tîm dan 20.

Mae Catrin yn cyflwyno rhaglen radio

Llun:BBC



Cat a Cats

hefyd – gyda'i ffrind, Catrin Dafydd. Enw'r rhaglen ydy **Cat a Cats** (y ddwy Catrin wrth gwrs). Maen nhw'n cloncian ac yn chwarae cerddoriaeth bob bore Sadwrn.

Geiriau

newyddiadurwraig – *journalist (fem.)*
 sylwebu – *(to) commentate*
 gwlad, gwledydd – *country, countries*
 cyfres,-i – *series*
 hunangofiant, hunangofiannau – *autobiography, autobiographies*
 cyflwyno – *(to) present*
 (y) Chwe Gwlad – *(the) Six Nations*
 cloncian – *(to) chat*

Catrin, beth ydy ...?

...eich hoff siop

Dw i wrth fy modd gyda cholur a setiau bach pert o golur. Mae siop golur yn America o'r enw Sephora – mae hi fel siop losin yn llawn color. Dych chi'n gallu treulio oriau a gwario gormod yno!



...eich hoff ddillad

Mae'n dibynnu ar sut dw i'n teimlo. Dw i'n ddigon hapus mewn pâr o jîns ac esgidiau cyfforddus, ond mae pawb yn mwynhau gwisgo lan a mynd mas yn teimlo'n smart – yn enwedig os oes parti!

...eich hoff ffordd o ymlacio

Dw i yn mwynhau gwyllo cyfres deledu dda – yn ddiweddar **Luther**, a **Killing Eve - Don't I Know You?**. Dw i'n mwynhau mynd i redeg hefyd – mae'n ffordd dda o glirio'r meddwl. Mae'n braf cael tipyn o awyr iach a symud ar ôl diwrnod wrth y cyfrifiadur.

...eich hoff wyliau

Dw i'n lwcus iawn gyda fy ngwaith. Dw i wedi gweld llawer o'r byd yn ddiweddar, ond, yn anffodus, yn aml iawn, does dim llawer o amser i chwilota. Fy ngwyliau delfrydol ydy ymlacio wrth y pwll nofio gyda chwmni da, tywydd twym a digon o fwyd a diod i 'nghadw i i fynd!



Killing Eve

Llun:BBC



Luther

Llun:BBC

Geiriau

colur – *make-up*
 losin = fferins – *sweets*
 cyfforddus – *comfortable*
 gwisgo lan = gwisgo i fyny – *(to) dress up*
 mynd mas = mynd allan – *(to) go out*
 yn ddiweddar – *recently*
 chwilota – *(to) explore*
 delfrydol – *ideal*
 twym = poeth – *hot*
 'nghadw i i fynd – *(to) keep me going*

Dyma T. Llew Jones

Mae Catrin Heledd yn hoffi llyfrau T. Llew Jones.

Roedd T. Llew Jones yn nofelydd a bardd ac mae e'n enwog iawn am ysgrifennu llyfrau i blant.

Nofelau antur ydyn nhw, am smyglwyr a môr-ladron a lladron pen ffordd.

Mae tri llyfr am Twm Siôn Cati – y 'Robin Hood' Cymraeg.


Llyfrau i blant a phobl ifanc ydyn nhw.

Mae'r straeon yn dda ac mae'r ysgrifennu'n dda.

Bob blwyddyn, ar 11 Hydref, mae ysgolion Cymru'n dathlu Diwrnod T. Llew Jones.

Mae'r plant yn darllen y llyfrau ac maen nhw'n gwisgo dillad fel cymeriadau yn y llyfrau.

EWCH I CHWILIO AM LYFRU T. LLEW JONES AR GWALES.COM



Geiriau

bardd – *poet*
 enwog – *famous*
 antur – *adventure*
 môr-leidr, môr-ladron – *pirate,-s*
 lleidr, lladron pen ffordd – *highwayman, highwaymen*
 sy'n dysgu – *who are learning*
 stori, straeon – *story, stories*
 dathlu – *(to) celebrate*
 cymeriad,-au – *character,-s*

Mae Gwenno Lloyd Jones yn rhedeg busnes newydd – busnes gwerthu cacennau, peis a bara heb glwten. Mae hi'n coginio popeth yn ei chartref yn Nghlwt y Bont, ger Caernarfon.

Coginio heb glwten

Mae Gwenno Lloyd Jones yn hoffi gwneud cacennau yn ei hamser sbâr ac mae hi'n hoffi addurno cacennau hefyd. Ers blynyddoedd, mae hi'n pobi cacennau pen-blwydd a phriodas.

Yna, tua phedair blynedd yn ôl, dechreuodd hi deimlo'n sâl. Glwten oedd y broblem. Roedd rhaid iddi hi dorri glwten o'i diet.

"Roedd rhaid i mi roi'r gorau i wneud cacennau achos ro'n i'n methu eu blasu nhw heb fynd yn sâl. Ro'n i wedi chwyddo, wedi blino'n ofnadwy a doedd gen i ddim nerth. Roedd hyd yn oed fy esgyrn yn brifo!" meddai Gwenno, sy'n byw yng Nghlwt y Bont ger Caernarfon.

Yr ateb? Dechrau gwneud bwyd heb glwten iddi hi ei hun.

"I gychwyn, roedd hi'n anodd dod i arfer efo pethau ond roedd rhaid i mi drïo newid fy ffordd o fwyta," meddai. "Mae mynd allan am fwyd yn broblem o hyd."

Ar ôl trio gwahanol ryseitiai, dyma Gwenno'n penderfynu dechrau gwneud cynnyrch heb glwten i'w werthu mewn gwyliau bwyd.

"Ces i ddechrau da yng Ngŵyl Fwyd Porthaethwy. Dyna'r tro cynta i mi fentro i'r byd mawr! Yna, aeth pethau'n wirion bost.



Wnes i sylweddoli bod yna farchnad fawr i gynnyrch heb glwten."

Roedd Gwenno wedi bod yn gweithio mewn syrjery doctor am 8 mlynedd. Tua chwe mis yn ôl, penderfynodd hi roi'r gorau i'w gwaith er mwyn cael mwy o amser i ddatblygu'r busnes, Gorlan's Gluten Free Bakery.

"Wnes i benderfynu mynd i Wyl Fwyd Biwmares ac, unwaith eto, wnes i werthu popeth yn gyflym iawn. Ar ôl hynny, roedd llawer o gaffis lleol yn gofyn am fy nghynnyrch i a rŵan dw i'n gwerthu iddyn nhw. Dw i isio gwerthu drwy Gymru!"

Oeddech chi'n gwybod?

Mae glwten yn gallu achosi salwch o'r enw afiechyd seliag.

Efo afiechyd seliag, mae system imiwedd y corff yn ymosod ar y corff ei hun. Glwten sy'n achosi hyn.

Mae'r afiechyd yn effeithio ar 1 o bob 100 o bobl ond dim ond 30% o'r bobl yma sy'n gwybod hynny.

Mae glwten yn effeithio ar bobl mewn llawer o ffyrdd – o ddolur rhydd i rash ar y croen.

Mae glwten mewn gwenith, barlys a rhyg. Gallwch chi gael mwy o wybodaeth ar www.coeliac.org.uk

Mythau!

Mae llawer o fythau am glwten ac afiechyd seliag. Dyma rai:

- Alergedd ydy hwn. Nage! Mae'n afiechyd.
- Dach chi'n gallu gwella o afiechyd seliag. Nac ydych! Dim ond un ffordd sy i deimlo'n well – peidio â bwyta glwten.
- Dydy un briwsionyn ddim yn ddrwg i chi. Ydy, mae o! Yn y gegin, mae'n rhaid osgoi pethau sy'n cael eu defnyddio wrth drin bwyd efo glwten ynddo fo.

Geiriau

pobi – (to) bake	sy'n byw – who lives
rhoi'r gorau (i) – (to) give up	dod i arfer – (to) get used to
wedi chwyddo – bloated	o hyd – still
nerth – strength	cynnyrch – products
hyd yn oed – even	yn wirion bost – daft, mad
asgwrn, esgyrn – bone,-s	sylweddoli – (to) realize

Dysgu mwy

Mae Gwenno yn gwneud llawer o waith i ddysgu mwy am flawd heb glwten. Mae hi'n dweud: "Mae lot o wahanol fathau – ond dw i isio gwneud yn siŵr eu bod nhw'n faethlon a bod blas gwych i'r cynnyrch hefyd."

Aeth Gwenno i ysgol goginio River Cottage yn Nyfnaint [sy'n eiddo i'r cogydd Hugh Fearnley-Whittingstall]. Gwnaeth hi gwrs i ddysgu sut i wneud crwst choux gyda blawd heb glwten. Naomi Devlin, yr athrawes goginio a'r awdures, oedd y tiwtor.

Mae Gwenno yn fam i dri o blant. Mae hi'n dweud: "Mae hyn wedi bod yn broses anodd a dw i ddim wedi cael llawer o gwsg ond mae'n gyffrous a dw i'n caru be' dw i'n gwneud."

Geiriau

maethlon – nutritious
sy'n eiddo i – which belongs to
crwst choux – choux pastry
cwsg – sleep

Geiriau

ymosod ar – (to) attack
dolur rhydd – diarrhoea
gwenith – wheat
barlys – barley
rhyg – rye
myth,-au – myth,-s
briwsionyn, briwsion – crumb,-s
osgoi – (to) avoid
trin – (to) handle

Rysâit

Pice ar y maen – heb glwten

Cynhwysion

- 350g o flawd plaen heb glwten
- 2 lwy de o bowdwr pobi heb glwten
- 180g o fenyn Cymreig
- 1/2 llwy de o gwm Xantham
- 130g o siwgr mân
- 100g o gyrens
- 3/4 llwy de o sbeis cymysg (opsiynol)
- 1/2 llwy de o rin fanila
- 1 wy
- 2 lwy fwrdd o lefrith cyflawn
- Mwy o siwgr mân i roi dros y pice ar y maen



Dull

1. Cymysgwch y blawd, y powdwr pobi a'r gwm Xantham mewn powlen fawr a rhwbiwch y menyng i mewn nes ei fod fel briwsion bara mân.
2. Ychwanegwch y siwgr, y cyrens a'r sbeis cymysg (os dach chi'n defnyddio sbeis cymysg).
3. Mewn jwg, cymysgwch yr wy, y llefrith a'r fanila; yna ychwanegwch nhw at y gymysgedd.
4. Cymysgwch i wneud toes. Rhowch y toes ar fwrdd gyda blawd heb glwten arno fo. Torrwch yn gylchoedd (defnyddiwch dorrwr 3 modfedd).
5. Coginiwch y cacennau mewn padell ffrïo ar wres isel am 3 munud bob ochr nes eu bod nhw'n frown.
6. Pan maen nhw'n oer, rhowch ychydig o siwgr mân dros y pice ar y maen – ac wedyn menyng a jam!

Geiriau

pice ar y maen = cacennau cri – Welsh cakes
 siwgr mân – caster sugar
 cymysg – mixed
 rhin fanila – vanilla extract
 llefrith = llaeth – milk
 cymysgu – (to) mix
 nes ei fod fel – until it's like
 briwsion bara – breadcrumbs
 mân – fine

ychwanegu – (to) add
 cymysgedd – mixture
 toes – dough
 arno fo / fe – on it
 cylch,-oedd – circle,-s
 padell ffrïo – frying pan
 gwres isel – low temperature
 nes eu bod nhw'n frown – until they're brown



Y Sêr gyda Chris Needs



YR HWRDD

Mae'n bryd i chi arafu a meddwl beth sy'n dda i chi. Mae amser ansicr yn dod ond peidiwch â mynd i banig. Bydd rhai pobl isie i chi newid eich meddwl ond byddwch yn benderfynol. Mae syrpreis neis ar y ffordd.



Y TARW

Dych chi angen deall pobl sy'n agos atoch chi. Mae pawb yn wahanol. Darllenwch y print mân yn ofalus. Gofynnwch am gyngor gan gyfreithiwr neu rywun dych chi'n nabod. Byddwch chi'n falch wedyn.



YR EFEILLIAID

Gwnewch eich gorau dros rywun sy angen eich help ond os ydy hyn am arian, byddwch yn ofalus. Mae angen bod yn ddoeth. Mae pethau da ar y ffordd.



Y CRANC

Mae llawer o weiddi, felly cerddwch i fwrdd. Mae angen gweithio ar dŷ. Mae pethau'n mynd yn dda yn y gwaith. Mae arian a dyrchafiad ar y ffordd. Pob lwc!



Y LLEW

Dych chi'n meddwl am syniad ers amser hir. Ewch amdani! Rhaid cael ffydd ynoch chi'ch hun. Peidiwch â gadael i bobl genfigennus eich stopio chi. Mae llythyr yn dod â hapusrwydd a newyddion da am arian.



Y FORWYN

Mae'n bryd i chi gael newid. Siaradwch gyda rhywun profiadol. Peidiwch â gwario gormod o arian ar bethau moethus a dillad dych chi ddim angen. Mae ffrind isie rhannu rhywbeth – gwrandewch.



Y GLORIAN

Dych chi ddim wedi siarad gyda hen ffrind ers amser hir? Ffoniwch y person yna. Byddwch chi'n teimlo'n dda. Dych chi'n haeddu gwyliau – peidiwch â theimlo'n euog am gymryd amser i ffwrdd. Ewch i fwynhau'r haul.



Y SGORPION

Peidiwch â gwranddo ar beth mae rhai pobl yn dweud. Mae digon o bobl genfigennus o gwmpas. Mae'n bwysig i chi gael ffydd ynoch chi'ch hun. Mae llwyddiant ar ei ffordd i chi. Chi fydd seren y sioe. Mae cyfle newydd yn y gwaith.



Y SAETHWR

O'r diwedd mae pethau'n gwella i chi. Ond peidiwch â gwario gormod o arian. Byddwch chi'n teithio i rywle – cyfle gwych! Bydd iaith newydd yn ddefnyddiol efallai. Byddwch yn ofalus gyda'ch diet. Mae pethau da ar y ffordd.



YR AFR

Mae hwn yn amser bendigedig i chi. Mae cariad o'ch cwmpas ac mae newyddion da am arian hefyd. Mae ffrindiau isie bod yn eich cwmmi chi. Mwynhewch yr amser yma. Mae'ch teulu chi'n poeni am eich lles a'ch hapusrwydd chi. Tawelwch eu meddyliau nhw!



Y CARIWR DŴR

Mae'n neis breuddwydio ond cofiwch realiti. Mae pethau hyfryd ar y ffordd. Mwynhewch y foment. Os dych chi'n prynu car newydd neu rywbeth drud, byddwch yn ofalus. Gofynnwch i ffrind am gyngor. Cynilwch arian rhag ofn – efallai bydd bil annisgwyl yn dod.



Y PYSGODYN

Mae'n amser hapus iawn i chi. Dych chi wedi aros yn hir iawn am hyn. Dych chi'n cael cyfleoedd newydd a ffrindiau newydd. O'r diwedd, mae'ch bos chi'n gweld eich gwerth chi. Mae rhaglenni a cherddoriaeth yn bwysig.

Geiriau

mae'n bryd i ... – it's time to ...
 yn benderfynol – determined
 mân – fine
 cyngor – advice
 cyfreithiwr – solicitor
 balch – pleased
 doeth – wise
 dyrchafiad – promotion
 ffydd – faith
 cenfigennus – jealous
 profiadol – experienced
 moethus – luxurious
 haeddu – (to) deserve
 euog – guilty
 llwyddiant – success
 o'ch cwmpas – around you
 lles – welfare
 breuddwydio – (to) dream
 annisgwyl – unexpected
 gwerth – value

Mae 2019 yn Flwyddyn Darganfod. Felly, mae **lingo newydd** yn darganfod pethau newydd yng Nghymru. Y tro yma, dyn ni'n edrych ar brosiect i ddarganfod capeli ac eglwysi ...

Ar eich beic

Dych chi'n mwynhau seiclo?

Dych chi'n mwynhau darganfod pethau newydd?

Dych chi isie trio achub hen gapeli ac eglwysi?

Mae'r pethau yma i gyd yn rhan o brosiect newydd o'r enw SpiritCymru.

Beth ydy'r prosiect?

Mae tua 800 o gapeli ac eglwysi yng nghefn gwlad Cymru ac ar hyd yr arfordir. Mae llawer o'r capeli yma wedi cau neu maen nhw mewn peryg.

Felly, mae dyn busnes o Aberteifi, James Lynch, wedi lansio prosiect newydd, SpiritCymru. Mae e'n gweithio gyda'r Eglwys yng Nghymru i greu teithiau beic gwahanol iawn.

Mae SpiritCymru yn digwydd yng Ngorllewin Cymru. Mae'n creu llwybrau i gysylltu capeli ac eglwysi yn yr ardal – llwybrau beicio.

Beth ydy'r prosiect? Wel, dych chi'n seiclo i gapeli ac eglwysi hanesyddol a dych chi'n gallu aros dros nos yn rhai o'r capeli a'r eglwysi.

Na, does dim rhaid cysgu ar seti caled! Mae SpiritCymru'n gallu gosod podiau cysgu yn yr eglwysi a'r capeli.

Mae'r podiau mewn arddull Japanaeaidd neu Sgandinafaidd a dydyn nhw ddim yn effeithio ar yr adeiladau eu hunain.

Geiriau

darganfod – (to) discover, discovery

achub – (to) save

arfordir – coast

cysylltu – (to) connect, link

set,-i – seat,-s, pew,-s

gosod – (to) place

arddull – style

effeithio ar – (to) affect

eu hunain

– themselves



“Cyffrous”

“Bydd SpiritCymru yn datlu'r adeiladau hyfryd hyn,” meddai James Lynch. Mae e isie gwneud yn siŵr bod cymunedau'n dal i'w defnyddio nhw.

Mae Alex Glanville o'r Eglwys yng Nghymru yn dweud bod hyn yn “gyfle cyffrous.”

Mae'n ffordd dda o roi pwrpas newydd i eglwysi sy wedi eu cau, meddai.

Mae'r teithiau'n cychwyn ac yn gorffen yn Fforest, Cilgerran, lle mae canolfan wyliau ecogyfeillgar. James Lynch sy biau'r ganolfan.

Mae Cilgerran, yn Sir Benfro, yn agos at Aberteifi. Mae teithiau SpiritCymru yn dechrau yn yr hydref.

Geiriau

cymuned,-au – community, communities



Dewis lingo

Mae llawer o hen eglwysi diddorol a hardd yn Sir Benfro ac ardal Aberteifi. Mae rhai wedi cau ond mae llawer ar agor hefyd. Dyma ffefrynnau lingo newydd ...

Eglwys Gadeiriol Tyddewi

Wrth gwrs! Dyma eglwys fwya pwysig Cymru. Dyma ble roedd Dewi Sant yn byw tua 1,500 o flynyddoedd yn ôl. Mae gweddillion Dewi yma, medden nhw – ac mae bedd a cherflun i gofio'r Arglwydd Rhys – tywysog mwya enwog De Cymru yma.

Cwm-yr-eglwys

A dweud y gwir, does dim eglwys yma heddiw – dim ond un wal a thŵr. Dych chi'n cofio stori yn lingo newydd am storm fawr 1859? Wel, cafodd yr eglwys yma ei chwalu yn y storm yna. Mae hwn yn lle hardd, ar lan y môr, rhwng Abergwaun a Threftdraeth.

Nanhyfer

Pentre pert iawn, rhwng Aberteifi ac Abergwaun, ydy Nanhyfer. Mae'r eglwys yn bert hefyd ac mae tri o bethau pwysig yma:

- croes hardd – ger drws yr eglwys mae croes uchel. Mae cerfiadau Celtaidd hyfryd arni hi.
- hen, hen iaith – yn yr eglwys, mae dwy garreg gyda marciau arny'n nhw, marciau Ogam, hen iaith o lwerddon.
- coeden sy'n gwaedu – mae sudd yn dod o un o'r coed yw yn y fynwent ac mae'n edrych fel gwaed.

Penbryn

Mae traeth gwych ym Mhenbryn, rhwng Aberaeron ac Aberteifi. Mae eglwys ddiddorol yma hefyd. Mae hi ar y bryn a'r hen enw arni hi oedd Llanfihangel ar y Bryn. Dydy hi ddim yn agos iawn at y pentre ac mae stori'n dweud pam.

Ar un adeg, medden nhw, roedd pobl y pentre isie codi eglwys newydd ond, yn y nos, roedd y cerrig yn symud yn ôl i fyny'r bryn!

Mae bedd enwog yma – bedd Allen Raine. Nofelydd rhamantus oedd Allen Raine – roedd ei llyfrau hi'n gwerthu cannoedd o filoedd o gopiâu yn yr 1900au. Enw iawn Allen Raine oedd Anne Adeliza Puddicombe.

Sant Gofan

Capel bach, bach ydy hwn – mae pedair wal, ffynnon, allor garreg a dim mwy, ond mae mewn lle arbennig iawn. Mae e ar y creigiau, ar lan y môr, ger Bosherton, yn Sir Benfro. Yn ôl y stori, mae dŵr y ffynnon yn gwella problemau llygaid a gwynegon.

Y Mwnt

Dyma eglwys fach arall mewn lle prydferth. Mae hi ar lan y môr hefyd, yn agos at Aberteifi. Mae ei waliau'n wyn a does dim byd yn agos ati hi. O'r eglwys, dych chi'n gallu gweld yr holl ffordd ar draws y môr i Ben Llŷn!

Geiriau

ffefryn,-nau – *favourite,-s*
gweddillion – *remains*
bedd – *grave*
cerflun – *sculpture*
chwalu – *(to) fall to pieces, destroy*
cerfiad,-au – *carving,-s*
gwaedu – *(to) bleed*
ywen, yw – *yew tree,-s*
mynwent – *graveyard*
allor – *altar*
gwynegon – *rheumatism*

Dyma SpiritCymru

Prosiect newydd ydy SpiritCymru – prosiect gan James Lynch, y dyn busnes o Aberteifi.

Beth ydy'r prosiect? Helpu pobl i ddarganfod hen gapeli ac eglwysi yng Ngorllewin Cymru.

Sut? Mae SpiritCymru yn creu llwybrau beicio rhwng y capeli a'r eglwysi.

Mae'n bosib mynd ar y beic o eglwys i eglwys ac o gapel i gapel.

Dych chi'n gallu cysgu yn yr eglwysi a'r capeli hefyd – mewn podiau arbennig!

Geiriau

darganfod – *(to) discover*
creu – *(to) create*
llwybr,-au – *path,-s*



Dros y Byd

Bardd a darlledwr o Gymoedd y De ydy Aneirin Karadog ond mae e'n byw yn Llydaw gyda'i deulu am flwyddyn...

Pam dych chi'n byw yn Llydaw?

Mae Mam yn Llydawes ac mae fy nhad yn Gymro. Dw i'n gallu siarad Llydaweg ac roedden ni isie treulio amser yn Llydaw. Dw i'n dysgu'r iaith i'r plant yn ogystal â'r Gymraeg. Dyma'r penderfyniad iawn: mae'r ddau'n mwynhau bywyd yn yr ysgol Lydaweg leol yn Lesneven. Hefyd, oherwydd Brexit, penderfynon ni wneud hyn nawr tra mae hawliau 'da ni!

Oedd e'n benderfyniad anodd?

Dyn ni'n aros yma am un flwyddyn ysgol. Ers ymddeol, mae fy rhieni i'n byw yn Llydaw. Mae Mam wedi byw a gweithio yng Nghymru, felly tro fy nhad ydy byw yn Llydaw nawr! Dyn ni'n byw drws nesa iddyn nhw. Mae'n wych i Sisial ac Erwan gael mwy o amser gyda Mam-gu a Tad-cu.

Pa fwyd dych chi'n mwynhau yn Llydaw?

Dw i'n gwneud crêpes i'r plant bob wythnos. Mae'n haws cael bwyd y môr yma, yn Llydaw, nag yng Nghymru ac am bris mwy rhesymol. Hefyd, mae cigoedd fel cwningen ar gael o'r siop gig leol.



Beth dych chi'n wneud yn Llydaw?

Dw i'n 'lecteur' Saesneg. Dw i'n rhoi gwersi Saesneg ym Mhrifysgol Brest UBO. Dw i'n dysgu Cymraeg canoloesol i'r myfyrwyr hefyd – mae cwrs Meistr Celtaidd enwog yn y Brifysgol. Mae'n braf cyflwyno'r Mabinogi a barddoniaeth a'r gynghanedd i grŵp brwdfrydig o fyfyrwyr.

Beth dych chi'n golli am Gymru?

Y prif beth ydy bod gyda ffrindiau a theulu. Does dim beirdd Cymraeg yn Llydaw chwaith, felly does dim llawer o gyfle i drafod pethau geeky fel y gynghanedd! Dim ond dau gar oedd 'da ni i ddod yma, felly dw i'n gweld eisiau fy silffoedd llawn llyfrau.

Geiriau

bardd – poet	tra – whilst
darlledwr – broadcaster	hawl,-iau – right,-s
cwm, cymoedd – valley,-s	mae ... ' da ni = mae gennyn ni ... – we've got ...
Llydaw – Brittany	tro – turn
Llydaweg – Breton	haws – easier
yn ogystal â – in addition to	rhesymol – reasonable

Pam dych chi'n hoffi byw yn Llydaw?

Mae plant yn cael bod yn blant am hirach yn Llydaw. Mae hynny'n beth braf. Dyn ni'n byw yn y wlad ger arfordir hardd iawn. Mae'n wych gallu bod ar lan y môr o fewn 5 munud. Mae llawer o hanes yn perthyn i Lydaw felly mae digon o leoedd i ymweld â nhw a threfi a phentrefi hardd i'w darganfod. Dw i'n hoffi'r cyfle i siarad Llydaweg. Mae Laura, hefyd, wedi cael cyfle i wella ei Ffrangeg a chymryd gwersi Llydaweg.

Geiriau

canoloesol – medieval
cynghanedd – strict poetic craft found in some Welsh poetry
brwdfrydig – enthusiastic
perthyn i – (to) belong to
darganfod – (to) discover
gweld eisiau – (to) miss
silff,-oedd – shelf, shelves



Dyma Aneirin

Beth ydy'ch gwaith chi?

Dw i'n fardd a darlledwr.

Ble dych chi'n byw?

Dw i'n byw yn Llydaw – am flwyddyn.

Pam symud i Lydaw?

Llydawes ydy Mam a dw i'n siarad Llydaweg. Mae fy rhieni i'n byw yn Llydaw –

drws nesa i ni!

Pa fwyd dych chi'n hoffi yn Llydaw?

Dw i'n gwneud crêpes i'r plant bob wythnos a dw i'n hoffi bwyd y môr a chigoedd fel cwningen.

Am faint o amser dych chi'n aros yn Llydaw?

Am flwyddyn.

Geiriau

bardd – poet
darlledwr – broadcaster
Llydaw – Brittany
Llydawes – Breton (fem.)
Llydaweg – Breton (language.)
cig,-oedd – meat,-s



Natur

gyda Bethan Wyn Jones



Eithin – y ‘blodau aur’

Mae hen ddywediad
Cymraeg yn dweud:

*aur dan yr eithin,
arian dan y rhedyn,
newyn dan y grub.*



Beth ydy ystyr hyn?

Yn syml, wrth i chi ddringo mynydd, mae llai a llai o bridd ac felly, wrth i chi fynd i fyny, mae llai a llai o laswellt. Felly, mae llai a llai o fwyd i'r anifeiliaid. Erbyn i chi gyrraedd pen y mynydd, lle mae'r grub yn tyfu, does dim llawer o fwyd ac mae'r anifeiliaid yn llwgu, neu'n newynu.

Mae digon o fwyd yn y dyffryn lle mae digon o laswellt. Yma, hefyd, mae'r eithin Ffrengig (*Ulex europaeus*; gorse) yn tyfu.

Mae'r eithin yma'n blodeuo ar ddechrau'r flwyddyn ac mae'r blodau yn felyn llachar neu'n aur.

Mae'r eithin mân (*Ulex gallii*; western gorse) yn gyffredin yng Ngorllewin Cymru. Mae'r eithin yma'n blodeuo ar ddiwedd yr haf ac mae'n tyfu efo'r grub – mae'n gwneud patrwm o borffor a melyn.

Yn aml, mae pobl yn dweud: mae blodau'r eithin fel 'blodau aur'. Mae aur dan yr eithin ac ar yr eithin hefyd!

Geiriau

eithin – gorse
dywediad – saying
rhedyn – gorse
newyn – famine

grub – heather
pridd – soil
glaswellt = porfa –
grass



Lliw melyn

Mae blodau'r eithin yn cael eu defnyddio i wneud lliw melyn ac mae'r lliw melyn yn cael ei ddefnyddio i liwio gwlan.

Roedd pobl yn arfer defnyddio'r blodau i roi lliw melyn ar wyau Pasg hefyd. Roedden nhw'n casglu wyau ieir ac yn eu rhoi nhw mewn sosban i ferwi efo blodau'r eithin. Roedd yr wyau'n troi'n felyn!

Beth arall?

Roedd pobl yn arfer plannu eithin i wneud gwrych.

Roedd eithin yn fwyd i anifeiliaid hefyd – i geffylau fel arfer. Roedd ffermwyr yn torri'r eithin ac yna roedden nhw'n malu'r eithin yn fân mewn melin. Mae'n bosib gweld melin eithin yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, ger Caerdydd. Yn y cyfnod mwy modern, roedden nhw'n defnyddio injan i falu'r eithin.

Roedd eithin yn cael ei losgi a'i ddefnyddio fel gwrtaith ar y tir hefyd.

Mae dywediad pwysig am yr eithin: *pan fo'r eithin yn ei flodau, mae'n amser cusanu*. Y newyddion da ydy bod rhyw fath o eithin yn ei flodau drwy'r flwyddyn! Mae'n amser cusanu bob amser, felly!

Geiriau

gwlan – wool
roedd ... yn arfer ...
– ... used to ...
gwrych = clawdd –
hedge
malu – (to) grind

yn fân – finely
melin – mill
cyfnod – period
llosgi – (to) burn
gwrtaith – fertilizer
dywediad – saying

Mae arogl hyfryd ar flodau'r eithin – arogl cnau coco.

Mae rhai pobl yn dweud, “Mae eithin yn anlwcus. Os dych chi'n mynd ag eithin i mewn i'r tŷ, mae anlwc yn dod.”

Mae'r eithin Ffrengig (*Ulex europaeus*; gorse) yn tyfu yn y dyffrynnoedd. Mae o'n blodeuo ar ddechrau'r flwyddyn ac mae'r blodau'n felyn llachar neu'n aur.

Mae'r eithin mân (*Ulex gallii*; western gorse) yn gyffredin yng Ngorllewin Cymru. Mae'r eithin yma'n blodeuo ar ddiwedd yr haf ac mae'n tyfu efo'r grub – mae'n gwneud patrwm o borffor a melyn.

Mae rhai pobl yn dweud, “Os oes blodau ar yr eithin, mae'n amser cusanu.” Diolch byth am y ddau fath o eithin – mae blodau ar un o'r ddau fath drwy'r flwyddyn! Lwcus!

Geiriau

eithin – gorse
arogl – smell
cnau coco – coconuts
anlwc – bad luck
tyfu – (to) grow
dyffryn,-noedd – valley,-s
blodeuo – (to) flower
yn gyffredin – common
efo = gyda – with
grub – heather
os – if
cusanu – (to) kiss

Mae dadlau ar Ynys Môn am un pwnc pwysig ers blynyddoedd. Mae cynllun i adeiladu gorsaf

Dim Wylfa Newydd?

Mae Ynys Môn yn y newyddion. Mae rhai pobl yn anhapus ond mae pobl eraill yn hapus iawn.

Ym mis Ionawr, dywedodd cwmni ynni niwclear Horizon, “Dan ni’n gohirio ein cynllun i godi gorsaf niwclear newydd yn yr ardal.”

Mae’r penderfyniad yna yn dod o Japan. Cwmni Hitachi yn Japan ydy perchnogion Horizon. Yn ôl Hitachi, does dim digon o arian i adeiladu’r orsaf newydd.

Maen nhw’n gohirio’r gwaith ar orsaf niwclear arall hefyd – yn Oldbury, ar lan afon Hafren, yn Lloegr.

Roedd Hitachi isio mwy o arian gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig – mae’r ddau gynllun yn costio tua £20 biliwn. Mae Hitachi isio sicrwydd am bris y trydan.

Ydy’r cynllun ar ben? Does neb yn gwybod. ‘Gohirio’ ydy’r gair, meddai Hitachi – ond dyma’r diwedd, meddai rhai.

Mae cwestiynau mawr am ynni niwclear.

Ym mis Tachwedd, daeth newyddion gan gwmi arall o Japan, cwmni Toshiba. Dydyn nhw ddim yn parhau efo gorsaf niwclear newydd yn Cumbria.

Roedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig isio nifer o orsafoedd niwclear newydd, ond dim ond un sy’n digwydd – yn Hinkley Point yng Ngwlad yr Haf.

Mae disgwyl bydd gorsaf niwclear Sizewell B yn cau yn 2035.

Geiriau

dadlau – *arguing*
 pwnc – *subject*
 ers – *since, for*
 cynllun – *scheme, plan*
 gohirio – *(to) postpone*
 perchennog, perchnogion – *owner, -s*
 yn ôl – *according to*
 y Deyrnas Unedig – *the United Kingdom*
 sicrwydd – *assurance*
 ar ben – *over, finished*
 parhau – *(to) carry on, continue*
 Gwlad yr Haf – *Somerset*
 disgwyl – *(to) expect*

Anhapus

Mae llawer o bobl yn drist iawn ar ôl clywed y newyddion.

Ardal dlawd ydy Ynys Môn ac mae angen swyddi yno, yn enwedig yng ngogledd yr Ynys, lle mae Wylfa.

Mae 40 o bobl yn gweithio ar y cynllun ar hyn o bryd, a tua 110 o gontractwyr lleol.

Mae’n brosiect anferth, gyda 9,000 o swyddi adeiladu ac 850 o swyddi parhaol – swyddi da.

Mae Arweinydd Cyngor Ynys Môn yn siomedig iawn.

“Dw i’n poeni am y dynion a’r merched lleol sy’n gweithio i Wylfa Newydd ar Ynys Môn,” meddai’r Cyngorydd Llinos Medi Huws.

Roedd llawer o bobl eraill a busnesau yn gobeithio cael gwaith yn Wylfa Newydd am flynyddoedd i ddod.

Ond mae hi’n dal i fyw mewn gobaith: “Dw i’n gobeithio bydd Hitachi a llywodraeth Japan a Phrydain yn gallu cytuno er mwyn symud ymlaen efo’r cynllun,” meddai hi.

Hapus

Doedd pawb ddim yn drist i glywed y newyddion am Wylfa Newydd. A dweud y gwir, roedd PAWB yn hapus iawn.

PAWB ydy’r mudiad lleol sy’n ymgyrchu yn erbyn Wylfa newydd. Ystyr yr enw ydy: Pobol Atal Wylfa B.

Maen nhw’n dweud: “Mae hyn yn newyddion da.”

Mae Cyfeillion y Ddaear a PAWB yn dweud wrth Hitachi: “Rhaid i chi stopio eich busnes mewn ynni niwclear.”

Diogelwch ydy pryder PAWB. Mae ynni niwclear yn beryglus, medden nhw. Maen nhw’n sôn am y ddamwain niwclear fawr yn Fukushima yn Japan.

“Dan ni ddim isio Fukushima arall,” meddai PAWB. Mae pobl o ardal Fukushima yn cefnogi’r ymgyrch.

Geiriau

mudiad – *movement*
 ymgyrchu – *(to) campaign*
 atal – *(to) stop, prevent*
 Cyfeillion y Ddaear – *Friends of the Earth*
 pryder – *concern*
 ymgyrch – *campaign*



Cynllun Wylfa Newydd

Mewn lle anodd

Mae cynllun Wylfa B yn broblem i wleidyddion, er enghraifft i Blaid Cymru.

Mae’r blaid yn erbyn ynni niwclear ond mae gwleidyddion lleol, fel arweinydd Cyngor Môn a’r Aelod Cynulliad, Rhun ap Iorwerth, yn cefnogi Wylfa B.

Nid ynni niwclear ydy’r dewis cynta, meddai Rhun ap Iorwerth, ond mae angen swyddi ar Ynys Môn.

Rŵan, rhaid gweithredu i helpu’r ynys, meddai: “Mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig wneud rhywbeth ar frys.”

Mae’n rhaid diogelu economi Ynys Môn, meddai Rhun ap Iorwerth. “Rŵan mae’n rhaid i ni edrych ar ffyrdd o symud ymlaen.”

Mae llawer o brosiectau cyffrous eraill yn digwydd ar Ynys Môn, meddai – fel y sector ynni adnewyddol a Pharc Gwyddoniaeth Menai.

Geiriau

gwleidydd, -ion – *politician, -s*
 gweithredu – *(to) act, take action*
 ar frys – *quickly*
 adnewyddol – *renewable*

niwclear newydd yn Wylfa, yng ngogledd yr ynys. Ond rŵan, mae marc cwestiwn mawr am y cynllun.




Rhun ap Iorwerth

Llun: Horizon

Cwestiynau

Mae stori Wylfa Newydd yn codi cwestiynau mawr. Dyma rai:

- Dan ni'n gallu fforddio gorsafodd niwclear newydd?
- Oes rhaid cael ynni niwclear?
- Ydy ynni gwyrdd yn gallu llenwi'r bwloch?
- Ydy ynni niwclear yn ddiogel? Ydy swyddi'n fwy pwysig na diogelwch?
- Gorsafodd niwclear bach ydy un ateb posib – dach chi'n cytuno?



Dyma'r stori

Mae cynllun i adeiladu gorsaf niwclear ar Ynys Môn.

Cynllun cwmni Hitachi ydy o.

Ond rŵan, maen nhw'n gohirio'r cynllun. Tan pryd? Does neb yn gwybod.

Dydyn nhw ddim yn gallu cytuno ar arian efo llywodraethau Prydain a Japan.

Trist!

Mae llawer o bobl yn drist – maen nhw isio swyddi yn Ynys Môn. Mae tua 150 o bobl yn gweithio ar y cynllun ar hyn o bryd.

Mae Rhun ap Iorwerth, Aelod Cynulliad Plaid Cymru, yn poeni am economi Ynys Môn.

Hapus!

Mae pobl eraill yn hapus iawn. Dydyn nhw ddim isio gorsaf niwclear newydd. Maen nhw'n dweud: "Mae hyn yn newyddion da."

Maen nhw'n poeni am ddiogelwch. Maen nhw'n dweud: "Dydy ynni niwclear ddim yn ddiogel."

Cwestiynau

Mae pawb yn gofyn yr un cwestiynau: "Beth ydy dyfodol Wylfa B?" a "Beth ydy dyfodol ynni niwclear?"

Geiriau

cynllun – <i>scheme, plan</i>	government, -s
cwmni – <i>company</i>	ar hyn o bryd – <i>at present, now</i>
gohirio – <i>(to) postpone</i>	Aelod Cynulliad – <i>Assembly Member</i>
tan pryd? – <i>until when?</i>	diogelwch – <i>safety</i>
gallu – <i>(to) be able to, can</i>	diogel – <i>safe</i>
cytuno – <i>(to) agree</i>	yr un – <i>the same</i>
llywodraeth, -au –	dyfodol – <i>future</i>
	ynni – <i>energy</i>



Dach chi'n gwybod?

Roedd gorsaf niwclear yn Wylfa ond mae hi wedi cau.

Roedd gorsaf niwclear yn Nhrawsfynydd, yn Eryri. Mae hi wedi cau hefyd.

Yn y ddau le, roedd y gorsafodd niwclear yn creu llawer o swyddi.

Ond, ar hyd y blynyddoedd, roedd pobl yn gwrthwynebu hefyd.

Rŵan, mae problem efo gwastraff niwclear. Mae gwastraff ar y ddau safle ac mae angen ei ddiogelu.

Enw Cymraeg arall am orsaf ynni niwclear ydy atomfa. Mewn gorsaf niwclear, maen nhw'n hollti atomau – felly mae atomfa yn enw da.

Geiriau

ar hyd y blynyddoedd –	<i>throughout the years</i>
gwrthwynebu – <i>(to) oppose</i>	
gwastraff – <i>waste</i>	
safle – <i>site</i>	
diogelu – <i>(to) make safe</i>	
hollti – <i>(to) split</i>	

Dach chi'n hoffi gwyllo rhaglenni am gefn gwlad Cymru? Dach chi'n hoffi'r rhaglen **Cefn Gwlad**? Mae dau ffermwr newydd ar y gyfres nesa.

CEFN GWLAD BACH

Dach chi'n gwyllo **Cefn Gwlad**? Mae'r rhaglen yn dangos pobl a phethau diddorol yng nghefn gwlad Cymru.

Dach chi'n hoffi Dai Jones Llanilar? Mae Dai yn cyflwyno **Cefn Gwlad** ers bron 40 o flynyddoedd.

Mae Dai Jones yn ffermwr, mae o'n ganwr ac mae o'n gymeriad mawr. Yn y gyfres nesa o **Cefn Gwlad**, mae o'n cael cwmni dau gymeriad arall – dau gymeriad mawr, bach!

Dau gefnder ydy Elis a Gadran ac maen nhw'n helpu Dai Jones. Maen nhw'n dysgu llawer am ffermio gan Dai.

Mae Gadran yn dod o Lansannan, yn Sir Ddinbych. Mae o'n hoffi cael ei alw'n Gads. Mae o'n 8 oed ac mae o wrth ei fodd yn helpu ar fferm ei daid.

Mae Elis yn byw yng Nghaerdydd ac mae o'n mwynhau helpu ar fferm ei deulu yn y Gogledd. Mae o'n 10 oed.

Mae'r ddau wedi bod yn safio eu harian er mwyn prynu fferm eu hunain ryw ddiwrnod – ac maen nhw isio llawer o anifeiliaid!

Mae **lingo newydd** wedi bod yn siarad efo sêr newydd **Cefn Gwlad ...**

Geiriau

cymeriad – character
cael ei alw – (to) be called
taid = tad-cu – grandfather
efo – gyda – with

Helo Elis a Gadran!

Ers pryd mae gynnoch chi ddi-ddordeb mewn ffermio?

Elis: Alla i ddim cofio! Dw i wastad wedi bod isie ffermio.

Gadran: Pan o'n i'n flwydd oed ac ro'n i'n dechrau mynd allan ar y fferm efo Taid.

Oes gynnoch chi gyngor i'w rannu efo darllenwyr lingo newydd?

Elis: Safiwch eich arian a pheidiwch ag anghofio am eich breuddwyd. Fy mreuddwyd i ydy cael fferm.

Gadran: Cofiwch gydweithio a helpu'ch gilydd. Dyna'r ffordd orau o weithio ar fferm.

Beth ydy'r peth gorau am weithio ar fferm?

Elis: Gweithio gyda'r holl anifeiliaid.

Gadran: Adeg wyna.


Beth ydy'ch hoff anifeiliaid?

Elis: Defaid Mynydd.

Gadran: Defaid Duon Cymreig. **Ydy Dai Jones wedi dysgu triciau i chi?**

Elis: Mae llygad da 'da Dai am anifeiliaid mewn sêl. Dw i'n gwybod erbyn hyn beth i chwilio amdano pan dw i'n mynd i sêls fy hun.

Gadran: Sut i baratoi cyn mynd o flaen y camera. Mae Dai yn adrodd pennill bach iddo fo ei hun cyn dechrau ffilmio felly dw i ac Elis yn gwneud yr un peth!



Beth ydy'ch hoff fwyd ar ôl diwrnod caled ar y fferm?

Elis: Hmm...cig! Dw i wrth fy modd gyda sosejys bach a bacwn! Mmm!

Gadran: Biff-byrgyr o fferm Taid.

Dych chi'n well ffermwyr na Dai Jones?


Elis: Na, dim o bell ffordd! Ond dan ni'n dysgu llawer gan Dai ar **Cefn Gwlad**. Gobeithio, ryw ddiwrnod, byddwn ni cystal â Dai!

Gadran: Nac ydw, ddim o gwbl!

Pa un ohonoch chi ydy'r ffermwr gorau?

Elis: Fi!

Gadran: Fi! Mae Elis yn hŷn na fi ella ond dw i yn sicr yn well ffermwr!





Dyma Cefn Gwlad

Mae S4C ar y teledu ers 1982 ac mae **Cefn Gwlad** ar S4C ers y dechrau.

Mae hi'n un o'r rhaglenni mwya poblogaidd ar S4C.

Mae Dai Jones yn cyflwyno **Cefn Gwlad** ers y dechrau.

Mae'n pawb yn adnabod Dai. Mae o'n byw yn Llanilar, ger Aberystwyth. Mae pawb yn galw Dai yn Dai Jones Llanilar.

Ond dydy Dai ddim yn dod o Lanilar yn wreiddiol. Mae o'n dod o Lundain!

Mae Dai yn ganwr enwog hefyd. Mae o wedi ennill y Rhuban Glas yn yr Eisteddfod

Genedlaethol.

Mae o'n cyflwyno ar y radio hefyd.

Yn ddiweddar, mae Dai Jones wedi bod yn yr ysbyty. Brysia wella Dai!

Geiriau

ers – since
mwya poblogaidd – most popular
cyflwyno – (to) present
adnabod – (to) know
galw – (to) call
wedi ennill – has won
yn ddiweddar – recently
wedi bod – has been
brysia wella – get well soon

Dyma Elis a Gads

- Dau gefnder ydy Elis a Gadran.
- Maen nhw'n hoffi ffermio.
- Mae Gads yn dod o Lansannan, yn Sir Ddinbych. Mae o'n 8 oed.
- Mae o'n hoffi helpu ar fferm ei daid.
- Mae Elis yn byw yng Nghaerdydd. Mae o'n 10 oed.
- Mae o'n mwynhau helpu ar fferm ei deulu yn y Gogledd.
- Mae'r ddau isio prynu eu fferm eu hunain un diwrnod.
- Maen nhw isio llawer o anifeiliaid ar eu fferm.
- Maen nhw'n dysgu llawer gan Dai Jones.

Geiriau

cefnder – cousin (masc.)
taid = tad-cu – grandfather
isio = isie – (to) want

eu fferm eu hunain – their own farm
eu – their

Diolch, Elis a Gadran, a phob lwc gyda'r gwaith ffermio a'r ffilmio. Edrych 'mlaen at eich gweld ar **Cefn Gwlad!**

Bydd Cefn Gwlad ar S4C bob nos Fawrth am 8, o 19 Chwefror 2019 ymlaen.

Geiriau

cydweithio – (to) work together
adeg wyna – lambing time
adrodd – (to) recite
pennill – verse
cystal â – as good as
yn hŷn na – older than
ella – efallai – perhaps



Mae Debora Morgante yn byw yn yr Eidal. Yn y gaeaf, roedd hi ar wyliau yng Nghymru. Ble aeth hi? I bentre 'Eidalaidd' Portmeirion!

O'r Eidal - i 'Eidal' yng Nghymru!



Dewis Debora

Ar ddiwrnod braf ac oer iawn o Dachwedd y llynedd, es i i Bortmeirion am y tro cynta. Do'n i ddim yn gwybod llawer am y lle heblaw am y lluniau ro'n i wedi gweld ar y we.

Dywedodd fy ffrindiau yng Nghymru fod Portmeirion yn bentref wedi'i adeiladu mewn steil Eidalaidd felly ro'n i'n awyddus i'w weld e gyda fy llygaid fy hun.

Mae hanes y lle yn ddiddorol iawn. Cafodd y pentref ei adeiladu gan y pensaer Clough Williams-Ellis rhwng 1925 a 1976. Dyn cyfoethog iawn oedd e – roedd e'n ddyn gyda llawer o ddychymyg hefyd!

Cymerodd e lawer o amser i ddod o hyd i le addas i adeiladu'r pentref. O'r diwedd, daeth Clough Williams-Ellis i le hardd iawn o'r enw Aber Iâ, ar lan y môr yng ngogledd Cymru. Dechreuodd e adeiladu Portmeirion.

Doedd e ddim eisiau i'r adeiladau sbwylio prydferthwch naturiol yr ardal. Felly, dechreuodd e chwilio am ddefnyddiau a chasglu eitemau hen ffasiwn i lenwi bylchau rhwng yr adeiladau.

Mae'n lle unigryw a rhamantus iawn. Mae'n eich atgoffa chi o bentre Eidalaidd i raddau ond does dim byd fel Portmeirion yn yr Eidal.

Geiriau

aeth – went	addas – suitable
heblaw am – apart	defnydd,-iau –
from	material,-s
wedi'i adeiladu – built	bwlich, bylchau –
awyddus – keen,	gap,-s
eager	unigryw – unique
dychymyg –	atgoffa – (to) remind
imagination	i raddau – to some
dod o hyd i – (to) find	extent

Fel breuddwyd

Mae crwydro strydoedd Portmeirion, edrych ar yr adeiladau lliwgar a'r gymysgedd o arddulliau fel bod mewn breuddwyd.

Mae'n bentre bach ond mae llawer o le i grwydro – mae coedwigoedd anferth a thraethau hyfryd yno. Dydy un diwrnod ddim yn ddigon i weld popeth. Mae Portmeirion yn lle sy'n eich ysbrydoli chi ac mae'n gwneud i chi deimlo fel plentyn mewn tŷ dol.

Yn y gaeaf, mae'r pentre'n dawel ac mae'r awyrgylch yn fwy hudol, dw i'n credu. Dw i wedi syrthio mewn cariad â'r lle yma. Hoffwn i fynd yn ôl i Bortmeirion yn fuan iawn ac aros yno dros nos os yn bosib!

Geiriau

cymysgedd – mixture
arddull,-iau – style,-s
breuddwyd – dream
sy'n eich ysbrydoli chi – that inspires you
awyrgylch – atmosphere
hudol – magical



Dych chi'n gwybod?

Cafodd cyfres deledu cwlt o'r 1960au ei ffilmio ym Mhortmeirion. Enw'r gyfres ydy **The Prisoner**. Dw i'n hoffi gwyllo DVD o'r gyfres achos mae'n ddiddorol iawn a dw i'n gallu gweld Portmeirion!

Dyma Bortmeirion

Beth ydy Portmeirion?

Pentre 'Eidalaidd' ydy Portmeirion.

Lle mae Portmeirion?

Mae Portmeirion ar lan y môr ger Porthmadog. Mae'r pentre mewn lle hardd iawn.

Beth ydy'r syniad?

Roedd Clough Williams-Ellis yn bensaer ac roedd e eisiau creu pentre hardd – ond doedd e ddim isie sbwylio'r olygfa.

Ydy Portmeirion yn enwog am resymau eraill?


Ydy. Dyma gartref **The Prisoner** – cyfres deledu cwlt o'r 1960au. A dyma gartref Gŵyl Rhif 6 – gŵyl gerddoriaeth fawr.

Geiriau

pensaer – architect
cwlt – cult
gŵyl – festival

Croesair

Mae rhai o'r atebion yn y rhifyn yma o **lingo newydd**.



Mae'r atebion ar y gwaelod.

Cofiwch: un llythyren ydy Ll ac Th

Ar draws

- Dych chi'n chwilio am hwn nawr! (4)
- Mae dau berson yn gwneud hyn yn y capel neu yn yr eglwys, efallai. (6)
- Y _____, tref yn y Gogledd lle mae llyn mwya Cymru. (4)
- Dych chi'n defnyddio tâp i wneud hyn, i weld pa mor hir ydy rhywbeth. (5)
- Mae Llew Tudur yn gwneud _____ caru. (5)
- ____ Jones, cyflwynydd y rhaglen **Cefn Gwlad**. (3)
- Mac yn yr Alban ond ____ yng Nghymru. (2)
- Nid naddo. (2)
- Ei – ond i lawer o bobl! (2)
- Nid drwg ____ da neu, efallai, dim _____. (3)
- Troi 15. dyna ryfedd! (2)
- Dyma'r 'blodau aur'. (5)

I lawr

- _____ un – nid llawer o bobl ond ychydig. (5)
- Gyda SpiritCymru dych chi'n gallu cysgu mewn _____. (6)
- Cerbyd i fabi. (4)
- Mae troed ar un pen. (4)
- Gwraig y ceiliog. (3)
- Offeryn pres – math o drwmped. (6)
- Mae 6. i lawr yn gwneud hyn. (5)
- Mae gan Mumph un o'r rhain ym mhob **lingo newydd**. (5)
- Mwy nag un pêl. (4)

Geiriau

- pa mor hir – *how long*
- cerbyd – *vehicle*
- pen – *end*
- offeryn – *(musical) instrument*
- pres – *brass*

Idiom lingo newydd

efo Mumph


Os ydy rhywun cyfoethog yn ennill mwy o arian ... neu os ydy rhywun lwcus yn cael mwy o lwc ... dyn ni'n dweud:

I'r pant y rhed y dŵr!

Mae hyn fel nant yn llifo i lawr y mynydd i'r pant.

Geiriau

- cyfoethog – *rich*
- ennill – *(to) win*
- pant – *valley*
- rhed – *runs*
- hyn – *this*
- fel – *like*
- nant – *stream*
- llifo – *(to) flow*



Atebion: 11. Dat; 13. Ap; 15. Do; 16. Eu; 17. Ond; 18. Ond; 19. Eithin. Ar Draws: 1. Ateb; 5. Pridi; 7. Bala; 8. Mesur; 9. Llwyau; 10. Uregorn; 11. Ambell; 12. Dodwy; 13. Idiom; 14. Pell. I lawr: 1. Mumph; 2. Eglwys; 3. Prwm; 4. Coes; 6. Iar;

ap lingo

newydd



Dych chi
eisiau clywed
lingo newydd?

Dych chi eisiau
gwybod sut i
ddweud y
geiriau?

Mae ap **lingo**
newydd ar gael.

Mae ap **lingo**
newydd gydag
ap **golwg**.

ap
golwg

Chwiliwch am ap
Golwg ar iOS ar App
Store, ac ar Android
ar Google Play.

